CYHOEDDIAD

# Diwygiadau i'w cynnwys yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr a'r Rheoliadau cysylltiedig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022 i 2023 (Grantiau ar gyfer Dibynyddion i fyfyrwyr cymwys sy’n dilyn cyrsiau dysgu o bell)

Diwygiadau i'w cynnwys yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr a'r Rheoliadau cysylltiedig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022 i 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 4 Awst 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 4 Awst 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/diwygiadau-iw-cynnwys-yn-y-rheoliadau-cymorth-i-fyfyrwyr-ar-rheoliadau-cysylltiedig-ar-gyfer-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Diwygiadau i'w cynnwys yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr a'r Rheoliadau cysylltiedig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022 i 2023**

**Grantiau ar gyfer Dibynyddion – cyrsiau dysgu o bell**

**Rheoliadau**

**Ymholiadau**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/diwygiadau-iw-cynnwys-yn-y-rheoliadau-cymorth-i-fyfyrwyr-ar-rheoliadau-cysylltiedig-ar-gyfer-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Diwygiadau i'w cynnwys yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr a'r Rheoliadau cysylltiedig ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022 i 2023

Bydd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn galluogi myfyrwyr cymwys i fod yn gymwys i gael Grantiau ar gyfer Dibynyddion wrth ddechrau cwrs dysgu o bell neu wrth barhau â chwrs dysgu o bell ar 1 Awst 2022 neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn gwneud diwygiadau mewn perthynas â Gwladolion Wcreinaidd ac aelodau o'u teuluoedd. Nodwyd y diwygiadau hyn yn SFWIN 06 2022 sydd i'w gweld yn **Hysbysiad gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru: cymhwystra ar gyfer gwladolion Wcreinaidd ac aelodau o'u teuluoedd**.

Mae Rheoliadau 2022 yn berthnasol ar gyfer y blynyddoedd academaidd sy'n cychwyn ar 1 Awst 2022 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, ac yn gwneud y newidiadau a nodir isod.

# Grantiau ar gyfer Dibynyddion – cyrsiau dysgu o bell

Taliadau grant i'r rhai sydd â dibynyddion yw'r Grantiau ar gyfer Dibynyddion, ac maent yn cynnwys y Lwfans Dysgu i Rieni, y Grant Oedolion Dibynnol, a'r Grant Gofal Plant. Nid yw myfyriwr israddedig sy'n dilyn cwrs dysgu o bell yn gymwys ar gyfer Grantiau ar gyfer Dibynyddion ar hyn o bryd. Mae hwnnw'n bolisi hirsefydlog.

Mae diwygiad yn cael ei wneud a fydd yn golygu y gall myfyrwyr ar gyrsiau dysgu o bell amserllawn a rhan-amser fod yn gymwys i gael Grant ar gyfer

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/diwygiadau-iw-cynnwys-yn-y-rheoliadau-cymorth-i-fyfyrwyr-ar-rheoliadau-cysylltiedig-ar-gyfer-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dibynyddion. Y rhesymeg dros wneud y newid yw ei fod yn dod â grŵp ehangach o fyfyrwyr sy’n rhieni ac yn astudio cwrs addysg uwch i fod yn gymwys ar gyfer y Grant Gofal Plant, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at un o ymrwymiadau 'Rhaglen Lywodraethu' Llywodraeth Cymru. Mae'r Lwfans Dysgu i Rieni a'r Grant Oedolion Dibynnol yn lwfansau cyfradd safonol (£1,862 a £3,262 yn 2022 i 2023 yn y drefn honno) ac mae'r Grant Gofal Plant yn talu hyd at 85% o gostau gofal plant hyd at uchafswm o £184 yr wythnos ar gyfer un plentyn, a hyd at £315 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu fwy. Caiff myfyrwyr sy'n dilyn cwrs rhan-amser eu hasesu ar gyfer swm is o’r Grantiau ar gyfer Dibynyddion yn seiliedig ar ddwyster y cwrs y maent yn ei astudio o'i gymharu â chwrs amserllawn cyfatebol.

## Rheoliadau

Dyma'r rheoliadau a fydd yn cael eu diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## Ymholiadau

Gall darllenwyr gysylltu â Llywodraeth Cymru neu â’u swyddog cyswllt arferol yn y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf cymhwystra. Gellir cysylltu â Llywodraeth Cymru drwy: **isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru**. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/diwygiadau-iw-cynnwys-yn-y-rheoliadau-cymorth-i-fyfyrwyr-ar-rheoliadau-cysylltiedig-ar-gyfer-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/diwygiadau-iw-cynnwys-yn-y-rheoliadau-cymorth-i-fyfyrwyr-ar-rheoliadau-cysylltiedig-ar-gyfer-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.